# Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Pobl Fyddar | Cofnodion

*Dydd Iau, 09:00, 27 Ionawr 2022 – Drwy gyfrwng Zoom*

## Yn bresennol

**Mark Isherwood AS** – Cadeirydd
**Callum Mclean** – Ysgrifenyddiaeth, Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
**Alison Bryan**
**Anthony Evans** – Dehonglwr Iaith Arwyddion Prydain / aelod o NRCPD
**Debbie Thomas** – Pennaeth Polisi a Dylanwadu yng Nghymru, Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar
**Jacqui Bond** – Gweithiwr Cymdeithasol
**John Day** – Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, Awdioleg
**Karen Robson** – Cyfarwyddwr, Cymru, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar
**Lee Gonzales** – ar ran Joel James AS
**Lisa Wilcox** – Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar, Cymru (BATOD Cymru)
**Louise Sweeney** – Prif Swyddog Gweithredol, Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
**Lyndsey Stringer** – BATOD Cymru
**Martin Griffiths** – Uwch Gynghorydd Cyflogaeth, JobSense
**Naila Noori** – Cynghorydd Polisi, Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Cymru (RCSLT Cymru)
**Nicola George** – Awdiolegydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
**Nigel Williams** – Grŵp Cymorth Mewnblaniad yn y Cochlea De Cymru
**Robin Ash** – Rheolwr Llinell, Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain
**Stuart Parkinson** – Swyddog Ymchwil a Datblygu, Cymdeithas Athrawon ac Aseswyr Iaith Arwyddion Prydain (ABSLTA)

## Cymorth cyfathrebu

**Hilary Maclean** – Adroddwr Llais i Destun
**Julie Doyle** – Dehonglwr Iaith Arwyddion Prydain
**Hannah Wilson** – Dehonglwr Iaith Arwyddion Prydain

## Ymddiheuriadau

**Mike Wycherley** – Pennaeth Gwasanaethau Rhanbarthol, DeafBlind UK
**Peredur Owen Griffiths** – AS
**Rhun ap Iorwerth** – AS
**Stephen Brattan-Wilson** – Aelod o Gymdeithas Dehonglwyr Iaith Arwyddion/Dehonglwr Iaith Arwyddion Prydain
**Llyr Gruffydd**
**Altaf Hussain**
**Paul Redfern**
**Michelle Fowler-Powe**
**Joel James**

## Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Croesawodd y **Cadeirydd** bawb i'r cyfarfod, a darllenodd yr ymddiheuriadau a oedd wedi dod i law. Yna, trafodwyd y materion a oedd yn codi. Nododd y Cadeirydd ei fod wedi sicrhau slot ar gyfer dadl fer ar Iechyd Meddwl a Lles Byddar Cymru. Mae hefyd yn aros i gael ei ddewis yn y balot i drafod Bil Iaith Arwyddion Prydain. Tynnodd y Cadeirydd sylw hefyd at y ffaith bod gan bob person yng Nghymru bum Aelod sy'n gyfartal o dan y gyfraith ac yn ymarferol os nad oes modd iddynt gael gafael ar eu Haelodau rhanbarthol o'r Senedd er mwyn codi materion.

Gofynnodd **Tony** gwestiynau ynglŷn â Bil Iaith Arwyddion Prydain. Beth fyddai'n digwydd yn Senedd y DU ar 28 Ionawr pe bai'r Bil yn cael ei basio, a sut y byddai hynny'n effeithio ar Gymru? Ymatebodd y Cadeirydd drwy ddweud y byddai'n dibynnu ar sut y byddai deddfwriaeth y DU yn cael ei chymhwyso. Mae'n bosibl y byddai angen deddfwriaeth ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac yn y blaen, yn dibynnu ar sut y cafodd ei drafftio, er mwyn ymgorffori elfennau mewn perthynas â phwerau datganoledig.

## Y wybodaeth ddiweddaraf am Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

Trafododd **Tony** bwysigrwydd trefnu cymorth cyfathrebu ymlaen llaw ar gyfer pob math o apwyntiadau, yn ogystal â chyfieithwyr ar gyfer pethau fel dadleuon yn y Senedd a Chwestiynau i'r Prif Weinidog. Ni ddylid trin y trefniadau hyn fel 'ôl-ystyriaeth', a dylid sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu cynllunio'n dda, a bod y dehonglwyr / cyfieithwyr wedi'u paratoi'n dda. Ychwanegodd Tony y dylai Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS) fod yn rhan o'r cyfarfodydd hyn, er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r pryderon a'r materion a gaiff eu codi gan y gymuned Fyddar. Soniodd Ton am enghraifft lle byddai person yn siarad â swyddog heddlu, a bod dyddiad mechnïaeth yn cael ei roi, a bod cais yn cael ei wneud am gyfieithydd *yn dilyn hynny.* Yna, byddai gofyn chwilio am gyfieithydd, a byddai hynny'n tarfu ar bethau pe na bai un ar gael.

Yna, cafwyd trafodaeth ar brosesau caffael mewn perthynas â chyfieithwyr, yn ogystal â'u cymwysterau a'r broses o'u cofrestru. Soniwyd bod nifer y cyfieithwyr cofrestredig yn isel, a chafwyd eglurhad ynghylch y gwahaniaethau allweddol rhwng cyfieithwyr Iaith Arwyddion Prydain a dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain.

Dywedodd **Robin** fod Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain wedi cynnal archwiliad siartredig ar gyfer Llywodraeth Cymru. Nodwyd bod adroddiad cysylltiedig wedi'i anfon at Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys argymhellion sy'n cynrychioli'r gymuned Fyddar. Roedd Robin yn hapus i rannu'r adroddiad â'r grŵp – a hynny yn Saesneg ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Nodwyd y dylai bod modd adrodd ar y canfyddiadau yn y cyfarfod nesaf.

Dywedodd **Lee** fod Joel James AS wedi codi cwestiwn gyda'r Gweinidog Iechyd yr wythnos diwethaf ynglŷn â'r pwyntiau a wnaed uchod. Bydd y wybodaeth Cymru gyfan ar bobl sydd â nam ar y synhwyrau yn cael ei harchwilio, yn ogystal â sut i gyflwyno hyfforddiant gorfodol ar gyfer holl staff y GIG, ac mae Eluned Morgan wedi ymateb yn gadarnhaol i hynny. Dywedodd Tony fod gan rai meddygon teulu ddarpariaeth dda iawn ar gyfer cleifion byddar, ond nad oes gan feddygon teulu eraill ddarpariaeth o'r fath (megis defnyddio cyfleusterau fideo / relay ar gyfer pobl fyddar yn hytrach na system lle mae angen ffonio i drefnu apwyntiad, gan mai dyma'r unig opsiwn sydd ar gael). Yn ogystal, soniodd am ymarferoldeb apwyntiadau ar-lein.

Dywedodd Karen fod yna dystiolaeth anecdotaidd sy'n cefnogi'r pwynt bod pobl fyddar yn wynebu rhwystrau wrth geisio cael mynediad at wasanaethau'r GIG, ond bod galwadau wedi'u gwneud ar gyfryngau cymdeithasol at ddibenion casglu tystebau a chodi ymwybyddiaeth. Dyfynnwyd nodiadau ac enghreifftiau amrywiol a fydd yn cael eu defnyddio mewn llythyr at Lywodraeth Cymru.

## Cydnabod y Symbol Mynediad i Gyfathrebu

Gwnaeth **Naila** gyflwyniad i'r grŵp, ac yna cyflwynodd y Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith. Rhannodd y Coleg ystadegau, gan gynnwys y ffaith bod 1 o bob 10 plentyn ag anhawster cyfathrebu neu anabledd a fydd yn golygu y bydd angen therapi lleferydd ac iaith arno. Yna, trafodwyd y symbol newydd ar gyfer mynediad i gyfathrebu, a gaiff ei adnabod ochr yn ochr â'r symbol ar gyfer mynediad i gadeiriau olwyn, a'r symbol ar gyfer y system ddolen sain. Lansiwyd y symbol yn swyddogol ym mis Tachwedd 2020, ac mae dros 3,000 o sefydliadau wedi ymrwymo i'w ddefnyddio ac i gael hyfforddiant yn ei gylch. Nododd Naila y byddai'n cysylltu â Debbie er mwyn darparu rhagor o fanylion ynghylch yr hyfforddiant i staff ac ynghylch a yw anghenion Makaton, anghenion Iaith Arwyddion Prydain ac anghenion cyfathrebu eraill yn cael eu trafod fel anghenion ar wahân, neu rai sydd angen mesurau amrywiol ar waith er mwyn dileu rhwystrau cyfathrebu. Yna, gan fod angen trafod materion eraill ar yr agenda, rhannodd Callum fanylion cyswllt Naila, er hwylustod unrhyw aelodau eraill o'r grŵp yr oedd ganddynt gwestiynau pellach.

## Iaith Arwyddion Prydain a Safonau Addysgu

Soniodd **Tony** am y cwricwlwm newydd yng Nghymru, gan nodi bod gan lawer o ysgolion ddiddordeb mewn addysgu Iaith Arwyddion Prydain. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod diddordeb cynyddol mewn Iaith Arwyddion Prydain ac ymwybyddiaeth ehangach o fyddardod yn sgil enillydd diweddaraf y rhaglen deledu "Strictly Come Dancing". Fodd bynnag, nododd fod nifer y tiwtoriaid sy'n cynnal darpariaeth ym maes Iaith Arwyddion Prydain bellach yn rhy isel. Yna, cafwyd enghreifftiau lle byddai tiwtoriaid anghymwys yn ymweld ag ysgolion cynradd er mwyn gwneud dehongliadau o ganeuon, ac yn defnyddio arwyddion gwallus neu'n camddefnyddio arwyddion. Yn ogystal, tynnwyd sylw at sefyllfa lle'r oedd coleg wedi hysbysebu swydd tiwtor Iaith Arwyddion Prydain, ond heb nodi bod cymhwyster lefel 1 ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain yn orfodol ar gyfer y rôl. Nodwyd bod yr enghraifft hon yn adlewyrchu problem sydd yn dod yn fwyfwy cyffredin. Bydd llythyr ar y mater hwn yn cael ei ddrafftio ar gyfer y Gweinidog Addysg.

## Y wybodaeth ddiweddaraf am ddiwygiadau ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol ac amseroedd aros ym maes Awdioleg

Dechreuodd **Debbie** drwy nodi bod y diwygiadau ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol ar fin mynd yn fyw. Bydd y system yn newid y ffordd y gall rhai plant ag anghenion dysgu ychwanegol gael cynlluniau cymorth. Mae'r NDCS hefyd wedi cael eglurhad ynghylch y mater o gamddehongli'r drefn gymhwystra newydd a'r Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) newydd. Yna, tynnodd Debbie sylw'r grŵp at y ffaith bod adnoddau a gwybodaeth ar gael ar wefan a llinell gymorth yr NRCPD i helpu pobl ifanc sy'n fyddar neu deuluoedd sy'n cael trafferth gyda CDUau.

Yna, trafodwyd amseroedd aros ym maes awdioleg. Nodwyd y ffaith bod gwasanaethau awdioleg wedi bod dan straen sylweddol yn sgil prinder staff, a bod hyn wedi arwain at amseroedd aros eithriadol o hir. Mewn rhai achosion a oedd wedi dod i'r amlwg, roedd pobl wedi bod yn aros am dros flwyddyn. Mae hynny'n gyfnod sylweddol i blentyn fod yn aros i gael cymorth, a gall sefyllfa o'r fath gael effaith fawr ar ei addysg. Mae'r NDCS wedi codi'r mater hwn gyda Llywodraeth Cymru, ac mae'r sefydliad yn gobeithio cael cyfarfod ym mis Mawrth.

Bydd llythyr yn cael ei ysgrifennu at gadeirydd y pwyllgor yn tynnu sylw at bryderon y grŵp trawsbleidiol ynglŷn ag amseroedd aros, ac yn nodi'r ffaith y byddai cefnogaeth y Pwyllgor o ran

blaenoriaethu gwasanaethau ym maes awdioleg bediatrig yn cael ei chroesawu. Gan ddefnyddio’r blwch sgwrsio ar-lein, darparodd Debbie lincs at y dudalen ADY.

## Y wybodaeth ddiweddaraf am y Grŵp Cymru Gyfan ar Iechyd Meddwl a Lles

Yn gyntaf, mynegodd Jacqui ddiolch ar ran y grŵp am y ffaith bod y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi cael ei chodi yn y Cyfarfod Llawn bythefnos ynghynt. Roedd y grŵp yn teimlo bod hyn yn amserol, ac yn dymuno hysbysu’r grŵp trawsbleidiol am y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn lansio ymgynghoriad ar anghydraddoldebau iechyd meddwl, gan wahodd pobl i gyflwyno tystiolaeth. Dywedodd Jacqui, er bod yr alwad hon yn nodi bod modd cyflwyno fideo fel tystiolaeth, roedd hi'n ansicr a fyddai ymatebion ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain yn cael eu derbyn yn yr un modd a thystiolaeth yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Ychwanegodd Jacqui fod modd cysylltu â Julia Terry i gael gwybodaeth am yr alwad am dystiolaeth, a bod modd rhannu’r wybodaeth honno drwy'r sefydliadau yn y grŵp.

Wrth gloi’r cyfarfod, gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr aelodau unrhyw gwestiynau neu sylwadau a oedd ymwneud ag egluro eitemau blaenorol ar yr agenda. Fodd bynnag, nodwyd y byddai’r materion hyn yn cael eu trafod gydag unigolion ar ôl y cyfarfod.

*Daeth y cyfarfod i ben.*